Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygu monitro blynyddol ar

# Ysgol Red Rose

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 12/05/2015**

## Cyd-destun

Ysgol arbennig annibynnol yn ardal y Mynydd Bychan yng Nghaerdydd yw Ysgol Red Rose. Mae’n darparu lleoliadau dydd ar gyfer disgyblion rhwng wyth ac 19 oed sydd ag anawsterau dysgu cymedrol i ddwys. Agorwyd yr ysgol yn Rhagfyr 2009.

Mae 10 disgybl ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd. Saesneg yw mamiaith pob un o’r disgyblion. Nid oes unrhyw ddisgyblion o grwpiau ethnig lleiafrifol. Mae gan bob disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn cael gofal gan yr awdurdod lleol. Cyngor Caerdydd sy’n ariannu pob un o’r lleoliadau ar hyn o bryd.

Mae’r ysgol wedi ei lleoli mewn adeilad cymunedol. Mae’r ysgol yn datblygu adeilad ychwanegol fel stiwdio gelf. Mae’r pennaeth presennol wedi bod yn ei swydd ers i’r ysgol agor yn 2009.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Dyma yw cryfderau’r ysgol:**

- Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da â’u medrau cymdeithasol a chyfathrebu
- Mae disgyblion yn dysgu sut i reoli eu hymddygiad yn llwyddiannus
- Mae’r cwricwlwm yn bodloni anghenion disgyblion unigol yn dda
- Mae pob un o’r staff yn gweithio gyda’i gilydd yn effeithiol i ddarparu amgylchedd gofalgar a chefnogol
- Mae’r ysgol yn datblygu diwylliant o hunanarfarnu ac yn cynnwys pob un o’r staff ac ystod eang o randdeiliaid yn y broses hon

### Meysydd i’w datblygu

**Dyma yw meysydd yr ysgol i’w datblygu:**

- Nid yw’r ysgol bob amser yn defnyddio’r data y mae’n ei gasglu ar bob disgybl yn effeithlon ac yn systematig i asesu cynnydd disgyblion a llywio cynllunio
- Er ei bod wedi gwneud cynnydd wrth fynd i’r afael â phob un o’r argymhellion o’r arolygiad blaenorol, megis dechrau o hyd y mae gwaith yn gysylltiedig â dau o’r argymhellion
- Er bod gan bob disgybl gynlluniau addysg unigol (CAUau), nid yw disgyblion yn ymwybodol o’u targedau unigol; nid yw staff yn defnyddio CAUau yn ddigon da i lywio eu cynllunio
- Nid yw’r ysgol wedi gwneud cais am newid perthnasol i ddefnyddio’r adeilad ychwanegol fel ystafell gelf eto

**Argymhellion**

**Dylai'r ysgol:**

A1 Ddefnyddio'r data sy'n cael ei gasglu ar bob disgybl yn fwy effeithlon a systematig i asesu eu cynnydd a llywio cynllunio

A2 Cynnwys pob disgybl mewn gosod a monitro targedau penodol a mesuradwy sy'n berthnasol i'w hanghenion unigol

A3 Cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar wneud penderfyniadau yn yr ysgol

A4 Gwneud cais am newid perthnasol i ddefnyddio'r adeilad ychwanegol

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygu blaenorol

**Argymhelliad 1: Sicrhau bod prosesau hunanarfarnu yn nodi meysydd i'w datblygu yn glir, a sefydlu prosesau ffurfiol cadarn ar gyfer gwella'r ysgol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi gwella ei phrosesau hunanarfarnu. Mae'r pennaeth a'r staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. Caiff pob un o'r staff gyfle i ychwanegu eu sylwadau ar fwrdd datblygu yn swyddfa'r ysgol. Mae'r sylwadau hyn yn llywio cynllunio ysgol gyfan pan fo'n briodol.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno system ffurfiol o arsylwadau gwersi. Fel rhan o'r broses hon, mae aelodau staff yn arfarnu eu gwersi eu hunain ac yn nodi meysydd penodol i'w gwella. Mae'r pennaeth yn casglu'r wybodaeth hon yn ofalus er mwyn sicrhau gwelliannau ysgol gyfan mewn addysgu a dysgu.

**Argymhelliad 2: Gwella'r cynllunio a'r cydlynu ar gyfer medrau allweddol disgyblion i sicrhau parhad a dilyniant effeithiol ar gyfer pob disgybl**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Megis dechrau datblygu y mae'r arfer o gynllunio a chydlynu medrau ar draws y cwricwlwm. Er bod staff yn asesu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn rheolaidd, nid ydynt bob amser yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon da i lywio eu cynllunio ar draws y cwricwlwm. Mae'r ysgol wedi cyflwyno templed ar gyfer cynllunio gwersi yn ddiweddar ac mae staff yn dechrau cynllunio gwersi'n fwy gofalus.

**Argymhelliad 3: Sicrhau bod cynllunio yn ystyried anghenion disgyblion mwy abl yn gyson**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi ad-drefnu ei dosbarthiadau yn dri grŵp ar wahân. Mae hyn yn golygu bod staff yn canolbwyntio'n fwy effeithiol ar anghenion disgyblion unigol erbyn hyn. Mae staff wedi cael hyfforddiant ar hoff arddulliau dysgu. Mae hyn wedi eu helpu i gynllunio gweithgareddau priodol ar gyfer disgyblion unigol. Mae'r ysgol wedi cyflwyno strategaethau defnyddiol i helpu disgyblion sy'n fwy abl i ddatblygu eu medrau meddwl a deall.

**Argymhelliad 4: Datblygu partneriaethau mwy effeithiol ag ysgolion eraill, fel bod staff yn gallu cynyddu eu gwybodaeth a'u harbenigedd trwy rannu arfer dda**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ysgol wedi datblygu cysylltiadau â rhai ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig lleol. Mae'r cyfleoedd hyn wedi galluogi staff i rannu syniadau a strategaethau. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith yr ymweliadau hyn ar wella darpariaeth yr ysgol neu safonau disgyblion.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 5: Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 7: Y modd y dylid ymdrin â chwynion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Ysgol Red Rose |
| **Rhif yr ysgol** | 6816095 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 05/03/2015 |
| **Perchennog** | Red Rose School Cardiff Ltd |
| **Staff** | 6 |
| **Nifer y disgyblion** | 10 |
| **Darpariaeth** | Dydd yn unig |
| **Math o angen addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau dysgu cymedrol i ddifrifol |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 20/01/2014 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 09/11/2012 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | Ddim yn berthnasol |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Elizabeth Ann Dackevych | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Caroline Rees | Arolygydd Tîm |